
# Cylchdaith Rhoshirwaun

Hyd: **11.5km - 7.25m**



### Cyfarwyddiadau

Cychwyn o faes pacio'r neuadd (SH 19305 29210) , ac wedyn cerdded i'r gorllewin i Lidiardau.

- Trowch i'r chwith a cherdded wrth gadw mynydd Ystum ar y chwith.
- Parhewch ar hyd y lon am tua 2km, ar draws y groesffordd wrth Gyll y Felin.
- Wedyn parhewch am tua 2km arall nes dowch chi at siop yn Blas Carmel.cewch fwyd a phanad yma.
- Dros ffordd i'r siop mae llwybr tua'r môr a llwybr yr arfordir. ewch i'r de ar hyd llwybr yr arfordir at Borthor.
- Wedyn ewch yn ôl i mewn i'r tir a throi i'r chwith at Fethlem.
- O Fethlem, ewch trwy Rydlios.
- wedyn trowch i'r de yn y troiad nesaf (Capel Mul), ac yn ôl at ysgol llidiardau.

**Pethau i'w gweld ar y daith:**



### 1 Rhoshirwaun

Pentref bychan agos i Aberdaron, Gwynedd, Cymru, yw Rhoshirwaun. Fe'i lleolir ym mhen Llŷn ar ffordd y B4413 tua 3 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Aberdaron a thua 9 milltir i'r de-orllewin o Nefyn. Dwy filltir i'r dwyrain cyfyd Mynydd Rhiw. Sefydlwyd Capel Saron yn y pentref gan y Methodistiaid Calfinaidd; fe drowyd yn dŷ yn 2000.

### 2 Neuadd Rhoshirwaun

Dros y blynyddoedd, bu'r syniad am Neuadd Bentref yn cnoi mewn sawl Pwyllgor 'Steddfod yn y Rhos. Rhaid cofio mai'r Eisteddfod ydi mam y neuadd yma. Yr oedd yma hen bwyllgor Eisteddfod yn mynd yn ol i 1883. 'Doedd dim byd o bwys yn digwydd yn Rhoshirwaun heb i bwyllgor y 'Steddfod gytuno a hynny. Agorwyd Neuadd Rhoshirwaun 28-2-1922






### 3 Ysgol Llidiardau

Agorwyd yr ysgol yma yn 1880 ac erbyn rwan, mae'r ysgol wedi cau gan Cyngor sir Gwynedd.

### 4 Mynydd Ystym

Bryn bychan a gysylltir ag Odo Gawr lle dywedir iddo gael ei gladdu dan garnedd o gerrig. Mae Castell Odo ar ei gopa lle ceir olion caer o Oes yr Efydd, ar ôl 1800 C.C. Ar ei odre gogleddol mae Ffynnon Odo a cheir Capel Odo yn yr ardal. Ar y copa hefyd mae maen enfawr a elwir yn Garreg Samson. Dywedir i hon gael thaflu yma o Uwchmynydd gan Samson a'r tyllau ynddi yw olion ei fysedd.





### 5 Capel Carmel

Pentref bychan agos i Aberdaron, Gwynedd, Cymru, yw Rhoshirwaun. Fe'i lleolir ym mhen Llŷn ar ffordd y B4413 tua 3 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Aberdaron a thua 9 milltir i'r de-orllewin o Nefyn. Dwy filltir i'r dwyrain cyfyd Mynydd Rhiw. Sefydlwyd Capel Saron yn y pentref gan y Methodistiaid Calfinaidd; fe drowyd yn dŷ yn 2000.

## 6 Anelog



Ceir cofnod o bresenoldeb mynachaidd, yn ystod cyfnod cynnar iawn, ar gerrig coffa arysgrifedig a ganfuwyd yn Anelog. Ar y cerrig sydd wedi'u treulio gan ddwr gwelir arysgrifiadau, yn Lladin, i goffáu Senacus, SENACUS/PBR/HIC/IACIT/CVMMVLTITV/FRATRVM



## 7 Chwarel Iasbis

Ym 1901 darganfuwyd gwythiennau o faen iasbis hyd at 37 metr (40 llath) o led ar waelod Mynydd Carreg. Mae maen iasbis hefyd yn dod i'r brig ar y clogwyni môr gerllaw. Yn ôl y sôn yn 1904 y cafodd y chwarel ei hagor. Ychydig iawn o wybodaeth sydd am y chwarelydda yma ond mae'r olion yn amlwg ar yr arfordir rhwng Porthor (SH16682996) a Phorth Orion (SH15602880).

## 8 Dinas Mawr a Dinas Bach




Mae'r enwau'n awgrymu y gallai fod caer yma ganrifoedd lawer yn ôl. Bellach mae'n lleoliad poblogaidd ymhlith pysgotwyr ac mae crancod yn cysgodi yn y tyllau niferus yn y creigiau. Yn Ninas Fawr ceir y tyllau canlynol: Tyllau Gwmanog, Tyllau Plu'r Geunydd a Thyllau Trwyn Tywod, ac ar Ddinas Bach: Twll Richard Ty'n Ffynnon, Twll Dyfn, Tyllau'r Ebolion, Pwll Ithel a Charreg Felys.



## 9 Porthor

Traeth braf gyda'i faes parcio ei hun (SH 167300)(eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) yw Porthor. Enwog am ei longddrylliadau a'i draddodiad smyglo! Efallai mai'r mwyaf anghyffredin o'r holl draethau hyfryd o amgylch yr ardal yw Porthor, sydd ychydig i'r gogledd o Aberdaron. Mae'r tywod gwyn yn chwibanu pan fydd rhywun yn cerdded arno.

## 10 Cau Tiroedd



INCLOSURE.


Do hereby give Notice,

And We do hereby also give Notice,

And We do hereby further give Notice,

Y Cau cyntaf yn Sir Gaernarfon dan ddeddf 1802 oedd tir comin eang y goron yn Rhoshirwaun yn cynnwys tua dwy neu dair mil o aceri mewn tri phlwyf yn eithaf gorllewin Llŷn, lle'r oedd ugeiniau bysgotwyr yn ystod y blynyddoedd wedi cael eu gadael i sgwatio.


Dychrynwyd bonnedd y sir gan y gwrthwynebiad yn Rhoshirwaun ac mewn cyfarfod yng Nghaernarfon yn 1808 pasiwyn i gymryd pob mesur angenrheidiol i orfodi'r Deddfau Cau Tir, ac i gosbi unrhyw rai a'u gwrthwynebai.



## 11 Gweirglodd Gorlan Hen

Mae digonedd o gaeau yn Llŷn nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer amaeth, y gellir eu hadfer fel gweirgloddiau wrth gyflwyno rheolaeth briodol. Enghraifft o hyn yw Gorlan Hen, ger Pengroeslon. Bwthyn 300 oed yw Gorlan Hen ac yn rhan o'r tyddyn mae gweirglodd 5-acer.

## 12 Glampio Coed a Crasu Coed



Dyma leoliad perffaith yng nghanol cefn gwlad am ddihangfa perffaith yng Ngogledd Cymru. Os ydych chi awydd penwythnos i ffwrdd neu wythnos i ymweld a mannau newydd, mae'n leoliad yn ddelfrydol i gyplau, ffrindiau neu deulu sydd yn chwilio am amser i ymlacio mewn caban moethus a chlyd. Hefyd, mae Crasu Coed yn gwneud Pitsa ardderchog ar y safle yma.